COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD IAU, 28 MAI 2026 10:00

Presennol

Y Cynghorydd J Gebbie – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | M J Evans | GC Haines | JC Spanswick |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | D M Hughes | J E Pratt | A Wathan |
| AJ Williams | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| David Wright | Pennaeth Dros Dro – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Gayle Shenton | Pennaeth Dysgu |
| Daniel Bolton | Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Darparwyr |
| Anthony Hewitt | Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Darparwyr |
| | Rheolwr Tîm Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin |
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Steve Berry | Swyddog Rhianta a Chyfranogi Corfforaethol |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

## 84. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr H Williams, M Jones, E Winstanley, T Thomas a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 28 Mai 2026 |

## 85. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 28 Mai 2026 |

## 86. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet dyddiedig 29/10/2025 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 28 Mai 2026 |

## 87. Diweddariad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol 2024/25

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles, oedd rhoi trosolwg o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol i Bwyllgor y Cabinet yn 2024-2026.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar:<br>• Niferoedd a rolau'r staff a neilltuwyd i blant â phrofiad o fod mewn gofal ac sy'n gadael gofal.<br>• Y rhesymau pam fethodd sefydliadau partner â mynychu cyfarfodydd y Bwrdd.<br>• Beth sy'n cael ei wneud i gefnogi plant sy'n mynychu sawl ysgol yn y Sir oherwydd gofynion gofal.<br>• Mesurau i oresgyn rhwystrau mewn data presenoldeb.<br>• Y mesurau diogelu sydd ar waith ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal a phlant sy'n gadael gofal ar gyrsiau galwedigaethol.<br>• Mesurau ar waith i sicrhau digon o wybodaeth ac i dynnu sylw at fanteision y gwasanaethau hyn. |

| | |
|---|---|
| | Atebodd y Pennaeth Dros Dro – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Pennaeth Dysgu - y cwestiynau hyn. Cytunwyd y byddai gwybodaeth yn cael ei darparu am nifer penodol o staff a neilltuwyd i rolau goruchwylio personol ar gyfer plant sy'n gadael gofal. Cytunwyd ymhellach y byddai gwybodaeth am blant â phrofiad o fod mewn gofal sy'n mynychu sawl ysgol yn cael ei chyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith parhaus ar set ddata rhianta corfforaethol i gefnogi ein dealltwriaeth o anghenion a chanlyniadau yn 2026/27. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 28 Mai 2026 |

**88. Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Rheoleiddiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) mewn Gofal Cymdeithasol i Blant**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd/Aelod o'r Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles, oedd i'r Pwyllgor ystyried canlyniad arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Rheoleiddiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym maes Gofal Cymdeithasol Plant yn 2025. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgarwch arolygu a fanylir yn yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar:<br>• Welliannau a nodwyd ar gyfer cyfleusterau ac amgylcheddau cyfredol yn yr adroddiad.<br>• Sut gallai'r Pwyllgor weithio'n agosach gyda Chynghorwyr sy'n cynnal ymweliadau rheolaidd â chyfleusterau gofal cymdeithasol.<br>• Adborth AGC am feysydd i'w gwella.<br><br>Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Pennaeth Dros Dro – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Darparwyr.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi nodi canlyniad Arolygiadau AGC o Wasanaethau Rheoleiddiedig y Cyngor ym maes Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 28 Mai 2026 |

## 89. Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd/Aelod o'r Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles a Rheolwr Tîm Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin, oedd rhoi gwybodaeth i Bwyllgor Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet am adroddiad arolygu diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru sydd i'w weld yn Atodiad 1 yr adroddiad. Arolygodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin rhwng 1 Medi a 5 Medi 2025.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar:<br>• Welliannau angenrheidiol o fewn yr adroddiad, a pholisïau neu hyfforddiant i fynd i'r afael â nhw.<br>• Gwahaniaethau rhwng yr adroddiad a'r materion a adroddwyd i aelodau'r Pwyllgor.<br>• Cynlluniau i ganiatáu i drefniadau dysgu staff barhau.<br>• Diweddariadau ar gymeradwyaeth a roddwyd gan Awdurdodau Lleol eraill.<br>• Cynnydd ar y cynllun gweithredu arfaethedig ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.<br><br>Atebwyd y cwestiynau hyn gan Reolwr Tîm Gwasanaeth Mabwysiadu Bae’r Gorllewin a'r Pennaeth Dros Dro – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet wedi ystyried a nodi adroddiad arolygu AGC ac yn cydnabod y bydd y Bwrdd Rheoli yn goruchwylio'r cynllun gweithredu a nodwyd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 28 Mai 2026 |

## 90. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 28 Mai 2026 |

| | |
|---|---|

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 11:06